

Person Perthnasol	Ymchwiliad	Dyddiad rhoi hysbysiad penderfynu	Canfyddiadau a dyfarniad y Comisiynydd
<p><u>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda</u></p>	<p><b>CS1385</b> Nid oedd gwybodaeth am swyddi ar gael yn Gymraeg ar y wefan pan gyflwynodd yr achwynydd y gŵyn. Yn ogystal â hyn, mae teitlau ar ddogfennau i'w lawrlwytho yn ymddangos yn Saesneg yn unig ar dudalennau sy'n hysbysebu swyddi.</p>	<p>15/05/2026</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b></p> <p>Mae safon 39 yn ei gwneud yn ofynnol i destun pob tudalen ar wefan y Bwrdd Iechyd fod ar gael yn Gymraeg, ac yn nodi na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y wefan. Yn yr achos yma, nid oedd gwybodaeth am swyddi ar gael yn Gymraeg ar y wefan pan gyflwynodd yr achwynydd y gŵyn. Yn ogystal â hyn, mae teitlau ar ddogfennau i'w lawrlwytho yn ymddangos yn Saesneg yn unig ar dudalennau sy'n hysbysebu swyddi. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 39. Mae safon 107A yn golygu bod rhaid i swydd ddisgrifiadau sy'n cael eu cyhoeddi gan y Bwrdd Iechyd fod yn Gymraeg. Yn yr achos yma, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cyhoeddi pob swydd ddisgrifiad yn Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 107A.</p> <p>Safon 39 – Methiant Safon 107A – Methiant</p> <p><b>Gweithredu Pellach</b> <u>Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011</u></p> <p>1. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd wirio pob un o'r tudalennau Cymraeg sy'n hysbysebu swyddi er mwyn sicrhau bod y teitlau yn yr adran 'Dogfennau i'w lawrlwytho' yn Gymraeg.</p>

2. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd atgoffa staff sy'n gyfrifol am uwchlwytho'r dogfennau yma i'r wefan o'r gofyniad i sicrhau bod y teitlau yn ymddangos yn Gymraeg.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd baratoi cynllun gweithredu at y diben o sicrhau ei fod yn cydymffurfio yn llawn gyda safon 107A wrth gyhoeddi swydd ddisgrifiadau.

Dylai'r cynllun gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Disgrifiad o'r camau sydd yn mynd i gael eu cymryd i sicrhau bod swydd ddisgrifiadau yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg yn y dyfodol. Gall hyn gynnwys:
  - o Sicrhau bod gwaith gwirio yn cael ei wneud o'r swydd ddisgrifiadau presennol er mwyn gweld faint ohonynt sydd angen eu cyfieithu.
  - o Sicrhau bod gan y Tîm perthnasol yr adnoddau angenrheidiol i gyhoeddi pob swydd ddisgrifiad yn Gymraeg.
  - o Sicrhau bod staff perthnasol yn ymwybodol o'r gofyniad o dan y safon i gyhoeddi swydd ddisgrifiadau yn Gymraeg.
- Manylion pwy fydd yn gyfrifol am gwblhau'r camau;
- Amserlen ar gyfer cyflawni'r camau, gyda phob cam angen cael ei gyflawni o fewn 12 mis i ddyddiad cymeradwyo'r cynllun.

- Rhaid i chi adrodd ar gynnydd cyflawni'r cynllun gweithredu 6 mis ar ôl dyddiad cymeradwyo'r cynllun. Amserlen: Rhaid i chi lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a'i rannu gyda'r Comisiynydd o fewn 3 mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad terfynol.